# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Dyddiad: 17 Mawrth 2011

## HWLG(3)-04-11-p4

**Teitl: Sesiwn Graffu Gweinidogol – Gwasanaethau Cymdeithasol – Papur Tystiolaeth**

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor ar y polisïau allweddol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru sydd wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ers Awst 2007.

### Cyd-destun

2. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhan ganolog o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn wasanaethau hollbwysig i'r 150,000 o bobl sy'n eu defnyddio bob blwyddyn; pobl sy'n wynebu rhai o'r anawsterau mwyaf a welant yn ystod eu hoes. Roedd 44,000 o atgyfeiriadau ynghylch plant a phobl ifanc ac 88,000 o asesiadau o anghenion oedolion y llynedd a darparwyd 12 miliwn o oriau o ofal cartref. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn gofalu am fwy na 5,000 o blant, y mae ychydig dros 4,000 ohonynt mewn gofal maeth. Y gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yw tua £1.4 biliwn, a chaiff gwasanaethau eu cyflenwi gan fwy na 70,000 o bobl sy'n gweithio mewn oddeutu 1,800 o sefydliadau wedi'u rheoleiddio.

### Papur ar Wasanaethau Cymdeithasol

3. Ar 17 Chwefror lansiais Bapur ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ""Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu"." Mae'r Papur yn ychwanegu at y gwaith a gyflawnodd y Comisiwn Annibynnol drwy ymgysylltu â phobl ledled Cymru gan edrych ar yr hyn yr oeddent am ei gael gan wasanaethau cymdeithasol a'r heriau a wynebir. Mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy, gan gydnabod nad yw hyn yn ymwneud ag arian yn unig. Mae angen ail-leoli ac ail-lunio gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion a disgwyliadau cyfnewidiol defnyddwyr gwasanaethau, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr, ac mewn ffyrdd sy'n gwneud defnydd o'u cryfderau hwy a chryfderau'r cymunedau. Rhaid i ni ymateb hefyd i'r cynnydd gwirioneddol ac arwyddocaol yn y galw, a hynny'n cynnwys cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd ar gofrestrau amddiffyn plant. Mae'r Papur yn nodi nifer o newidiadau strategol y credwn eu bod yn angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol cadarn a chydnerth. Mae'r newidiadau strategol hyn yn golygu rhoi'r gorau i wneud rhai pethau a rhoi blaenoriaeth i bethau newydd.

### Deddfwriaeth

4. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth hyrwyddo ein cydweledigaeth ar gyfer datganoli llawn drwy arloesi nifer o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau Cynulliad mewn cysylltiad â gwasanaethau plant ac oedolion.

5. Ers 2009, mae'r holl bwerau ar gyfer mesurau diogelu a lles plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed wedi'u datganoli. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd i ni hyrwyddo polisïau Cymreig i gwrdd ag amgylchiadau Cymru. Ni oedd y genedl gyntaf i gymryd mesurau cyfreithiol i fynd i'r afael â thlodi plant; cryfhau ein hymrwymiad i hawliau plant yn ogystal â chynorthwyo plant a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy ddulliau integredig o weithredu.

6. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 ym Mawrth 2010. Mae'r Mesur yn darparu pwerau rheoleiddio er mwyn cael mwy o gysondeb yn y ffioedd y mae awdurdodau lleol yn eu codi am wasanaethau gofal amhreswyl. Rwyf yn cyflwyno "Pecyn Gwella Camau Cyntaf "dechreuol sy'n cynnwys mesurau gorfodol i amddiffyn y rheini sydd ar incwm isel a ffi uchaf wythnosol o £50 am wasanaethau ar draws Cymru ac yn darparu cludiant i wasanaethau dydd yn ddi-dâl. Caiff cynghorau eu had-dalu am yr incwm o £10 miliwn y byddant yn ei golli o ganlyniad i'r gwelliannau hyn.

7. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) ym mis Tachwedd 2010 a bydd yn rhoi'r GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru dan ddyletswydd i gydweithio i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer Gofalwyr. Bydd y strategaethau hyn yn creu gofynion yn gyntaf i wasanaethau cymdeithasol a'r GIG ynghylch darparu gwybodaeth ac arweiniad i ofalwyr a'u cynnwys yn adeiladol mewn penderfyniadau. Bydd ymgynghori cyn hir ar reoliadau a chanllawiau drafft i ategu'r Mesur a bydd rheoliadau a chanllawiau'n dod i rym ar ddechrau 2012.

8. Un o'r ymrwymiadau allweddol yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn oedd creu Swyddfa Comisiynydd Pobl Hyn Cymru. Rhoddodd Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) bwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008 i sefydlu Comisiynydd annibynnol sydd â'r swyddogaeth o helpu i hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hyn a'u cefnogi.

9. Er bod y dull o gyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddatganoli, bydd angen i unrhyw ddiwygio sylweddol ar y dull o dalu amdano gael ei hyrwyddo gan Lywodraeth y DU. Rwyf wedi sicrhau bod Gweinidogion perthnasol yn Llywodraeth y DU a'u Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chymorth (dan gadeiryddiaeth Andrew Dilnot) i gyd yn llwyr ymwybodol ein bod yn disgwyl y bydd unrhyw system newydd ar gyfer talu am ofal yn cyd-fynd â'n dewis dull cyflenwi yng Nghymru. Clywodd Mr Dilnot yn uniongyrchol gennyf fi a chan randdeiliaid yng Nghymru er mwyn dylanwadu ar ei argymhellion sydd i gael eu hystyried gan Lywodraeth y DU yn yr

haf.

10. Mae'r Bwrdd Cynghori ar Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed a sefydlais wedi argymell cynnal adolygiad o'r sail ddeddfwriaethol i drefniadau amddiffyn oedolion yng Nghymru a chreu canllawiau statudol yn lle "'Mewn Dwylo Diogel'". Roedd argymhellion y Grwp yn rhan o'm hystyriaethau mewn cysylltiad â'r gwella ar drefniadau amddiffyn oedolion sydd wedi'i ddisgrifio yn ""Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu". "

11. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cynnig mwy o hyblygrwydd i unigolion o ran y ffordd i fodloni eu hanghenion gofal cymdeithasol asesedig. Mae nifer y trefniadau talu uniongyrchol yn dal i dyfu, gan ymestyn taliadau uniongyrchol i gynnwys grwpiau o bobl a oedd wedi'u cau allan o'r blaen, a chaniatáu i fwy o bobl anabl a'u gofalwyr wneud penderfyniadau a rheoli eu bywydau eu hunain. Bydd rheoliadau a chanllawiau i ganiatáu ymestyn y cynllun taliadau uniongyrchol i gynnwys pobl sydd heb alluedd yn cael eu gosod cyn hir.

## Datblygu Polisi

12. Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Adran 7 ym Mehefin 2009. Maent yn dangos dull neilltuol Gymreig o reoli a chyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ac yn delio â chwe atebolrwydd craidd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gofynion yn y perthnasoedd cyfatebol allweddol, gofyniad newydd i adrodd yn flynyddol i'r Cyngor, a phennu cymwyseddau mewn cysylltiad â phenodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

13. Cyhoeddais y Fframwaith Comisiynu: Canllawiau ac Arferion Da yn Awst 2010. Mae'r canllawiau statudol hyn yn disgrifio safonau comisiynu y mae disgwyl i awdurdodau lleol eu cyrraedd ac yn gosod y meincnod ar gyfer mesur effeithiolrwydd y comisiynu gan awdurdodau lleol. Roeddent wedi'u hategu gan arferion da o ran comisiynu a chaffael.

14. Rwyf wedi sicrhau bod systemau i reoli perfformiad gwasanaethau cymdeithasol wedi'u sefydlu mewn awdurdodau lleol. Ategwyd hyn drwy'r Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad a drosglwyddwyd i'r Grant Cynnal Refeniw o 2011-12 ymlaen i gydnabod y rôl graidd sydd gan lywodraeth leol yn y maes hwn.

15. Cafwyd rhai cyflawniadau arwyddocaol drwy'r grant gweithlu gan gynnwys ennill 6,700 o gymwysterau a chyflenwi 132,000 o ddiwrnodau hyfforddi yn 2009-10. Rydym yn dal i noddi Cyngor Gofal Cymru y mae ei gyflawniadau'n cynnwys ymestyn a dyfnhau'r rheoleiddio ar staff gofal cymdeithasol allweddol; datblygu cymwysterau galwedigaethol hyblyg newydd; yr ymgyrch hyder mewn gofal i hybu ymwybyddiaeth o safonau ymarfer i Weithwyr Gofal Cymdeithasol a datblygu pellach ar y radd Gwaith Cymdeithasol.

16. Mae ein polisi pwysig, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi ysbrydoli a dylanwadu ar gyfeiriad rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy fynnu bod cymorth integredig yn cael ei ddarparu i blant a theuluoedd cymhleth drwy wasanaethau amddiffynnol, ataliol a lliniarol, sydd ar gael drwy Family First a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

17. Gyda'm cyd-Weinidogion rwyf wedi hyrwyddo gwaith i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus drwy roi blaenoriaeth i raglen Effeithlonrwydd ac Arloesi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Modelau Gwasanaeth Newydd i deuluoedd cymhleth. Bellach mae llawer o ardaloedd lleol yn ad-drefnu gwasanaethau ar ffurf modelau integredig newydd ac rwyf wedi fy nghalonogi'n benodol gan arweiniad y Byrddau Gwasanaethau Lleol tuag at wireddu'r weledigaeth yn "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu". Mae dulliau integredig o ymwneud â theuluoedd yn hanfodol hefyd er mwyn mynd i'r afael yn gynharach â phroblemau plant a theuluoedd, gan leihau'r angen am ymyriadau dwysach gan wasanaethau cymdeithasol.

18. Drwy bwerau i Gymru a sicrhawyd yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 2008, rydym yn cryfhau mesurau diogelu a lles ar gyfer grwpiau ehangach o blant sy'n agored i niwed ac yn gwella profiadau a chanlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal. Mae'r diwygiadau hyn yn cwmpasu: mwy o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i ymweld â rhieni a'u cynorthwyo; ymweld â phlant sydd mewn llety oddi cartref yn enwedig mewn cysylltiad â diogelwch a les; mwy o hawliau i blant (a oedd mewn gofal cynt) sy'n cwblhau dedfryd garcharol; systemau newydd i alluogi gofalwyr sy'n ddarpar rieni maeth a mabwysiadol i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch cymeradwyo.

19. Ein rhaglen "Best Chance "i hyrwyddo partneriaeth ag awdurdodau lleol, busnes a'r gymuned er mwyn helpu pobl ifanc sydd mewn gofal i drosglwyddo i fyd gwaith, drwy gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a phrentisiaethau. Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan bawb sydd wedi croesawu hyn fel rhan o'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol.

20. Un thema ganolog yn y newidiadau y byddwn yn eu dwyn ymlaen dan Ddeddf 2008 yw trawsnewid y system asesu, rheoli gofal ac adolygu ar gyfer gwasanaethau plant. Mae'r system gofal yn croesi swyddogaethau sydd heb eu datganoli sy'n ymwneud â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'r Farnwriaeth yn sicrhau bod polisïau ac arferion a gadwyd yn gyson â'r agenda yng Nghymru. Rwyf wedi comisiynu adolygiad annibynnol ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Addysg o'r System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae Panel yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol, y trefnwyd iddo gyflwyno ei ganfyddiadau presennol cyn hir, yn ystyried y modd y mae awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd heb eu datganoli'n ymwneud â phroses y llysoedd mewn achosion cyfraith gyhoeddus a chyfraith deuluol.

21. Mae Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD), a gyhoeddwyd yn Ebrill 2008, yn egluro sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu bodloni anghenion unigolion sydd ag ASD a'u teuluoedd a gofalwyr. Cymerwyd camau mawr ers ei lansio. Mae rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol wedi datblygu ledled Cymru ac mae gan bob awdurdod lleol swyddog arweiniol ASD, Grwp Llywio ASD a Chynllun Gweithredu ASD lleol. Mae nifer o brosiectau rhanbarthol llwyddiannus iawn yn mynd ymlaen a chafwyd datblygiadau cenedlaethol hefyd er mwyn dal sylw a pharhau â gwaith sy'n arwain y byd. Cytunwyd ar gyllid o fwy na £2 filiwn ar gyfer 2011-12.

22. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru gan adeiladu ar sail ein perthnasoedd gweithio cadarn yng Nghymru drwy gydgysylltwyr a hyrwyddwyr y Strategaeth a fforymau 50+ ym mhob awdurdod lleol. Yng nghyhoeddiad y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus - "Policies for Peace of Mind: Devolution and older age in the UK," nodwyd bod y dull o weithredu yng Nghymru'n cael ei weld fel yr ymrwymiad hirdymor mwyaf ystyrlon i wella sefyllfa pobl hyn o blith holl weinyddiaethau'r DU yn y degawd diwethaf. Bydd yr adolygiad a gwerthusiad o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn Cam 2 yn dechrau yn 2011-12.

23. Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hyn, rhoddwyd lle amlwg i Urddas mewn Gofal drwy raglen 3 blynedd dan arweiniad Grwp Cynghori a buddsoddiad o £300,000 i hybu ymwybyddiaeth a gwella arferion. Cyhoeddir adroddiad terfynol ar y rhaglen yn ddiweddarach y mis hwn.

## Casgliad

24. Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud cynnydd sylweddol ond, oherwydd pwysau demograffig a galwadau/disgwyliadau am wasanaethau, mae angen newid pellach. Mae "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu" wedi cyflwyno sail ar gyfer parhau â'r agenda hon gan y Llywodraeth Cynulliad nesaf gan adeiladu ar y sylfaen gadarn yr ydym wedi'i gosod.

Gwenda Thomas AC
Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Mawrth 2010